# DATHLU PEDWAR CANMLWYDDIANT GENI GEORGE HERBERT (1593-1633), Offeiriad a Bardd

gan PHILLIP DE LA HAYE

Fel yn ystod pob blwyddyn cawsom gyfle i ddathlu penblwydd nifer o ddigwyddiadau pwysig neu ddiddorol yn ystod 1993: pedwar canmlwyddiant crogi John Penry; pedwar canmlwyddiant crogi William Davies yng ngharchar Biwmares; tri chanmlwyddiant geni Theophilus Evans a gafodd ei fedyddio 21 Chwefror 1693; canmlwyddiant marw R. S. Hughes y cerddor; canmlwyddiant geni Ivor Novello, Wilfred Owen, John Saunders Lewis a Lewis Valentine; canmlwyddiant caniatáu Siarter Frenhinol i Brifysgol Cymru oedd yn cynnwys colegau Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd ar y pryd; canmlwyddiant marw a llosgi corff yr hynod William Price, y 'dyn od' a hyrwyddwr corfflosgiad, ac wrth gwrs ganmlwyddiant Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago pryd yr enillodd Dyfed y gadair am ei awdl 'Iesu o Nasareth'.

Cyn claddu 1993 yn niwl y gorffennol pell hoffwn fanteisio ar y cyfle i atgoffa pawb sydd yn caru ac yn gwerthfawrogi ein hetifeddiaeth goeth o emynau a cherddi fod 1993 yn bedwar canmlwyddiant geni yr offeiriad a'r bardd George Herbert.

Fe gafodd ei eni ar Ebrill 3ydd 1593 yn fab i Richard a Magdalen Herbert, Trefaldwyn. Yr oedd yr Herbertiaid o dras Normanaidd a Chymreig ac erbyn y bymthegfed ganrif yr oeddent wedi codi i fod yn deulu mwyaf blaenllaw y Gororau. Yr oedd Magdalen Herbert yn ferch i Syr Francis Newport, un o direfeddianwyr mwyaf Swydd Amwythig ar y pryd. Yr oedd George Herbert yn un o ddeg o blant, ef oedd y pumed o saith o feibion.

Dywed y cofnod clasurol iddo gael ei eni yng Nghastell Trefaldwyn ond y mae rhai haneswyr yn haeru mai yn Eutun ar Hafren yn Swydd Amwythig neu yn Llundain y cafodd ei eni. Mae'n debyg mai'r gwir yw na wyddom i sicrwydd ym mhle y cafodd ei eni.

Y mae Eutun ar Hafren yn bosibilrwydd oherwydd mai yno oedd cartref ei fam ac yno y cafodd ei frawd hynaf, Edward, ei eni yn 1583. Dyma'r enwog Arglwydd Herbert o Cherbury, yr athronydd a'r llenor disglair. Nid oes modd anwybyddu hawl Trefaldwyn iddo ychwaith oherwydd mai yma yr oedd prif ddylanwad yr Herbertiaid. Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn fod y bardd John Donne, cyfaill i fam George, wedi cyfansoddi cerdd i'r 'Friallen' yng Nghastell Trefaldwyn!



Mae'n bur debyg mai tarddiad y syniad mai yng Nghastell Trefaldwyn y cafodd George ei eni yw'r gosodiad o eiddo ei gofiannydd cyntaf Izaak Walton sy'n dweud fod man ei eni 'gerllaw Trefaldwyn ac yn y castell hwnnw sydd yn dwyn enw'r dref a'r sir'. Daw'r gosodiad hwn o *The Life of Mr George Herbert* gan Walton a gyhoeddwyd yn 1670. Nid oedd yr hanesydd lleol y diweddar J. D. K. Lloyd yn fodlon derbyn mai yng Nghastell Trefaldwyn y cafodd George Herbert ei eni a byddai byth a beunydd yn cyfeirio fod yna adroddiad o waith un Robert Lloyd a oedd yn dyddio o Ionawr 1593 ac a ddywedai fod y Castell mewn cyflwr truenus ar y pryd, a hynny dri mis yn unig cyn geni George. Credai J. D. K. Lloyd mai mewn rhan arall o'r dref y cafodd ei eni, sef mewn tŷ o'r enw Black Hall. Adeiladwyd y tŷ hwn tua 1560. Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn fod Barnabas Oley yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *The Country Parson* a gyhoeddwyd yn 1652 yn nodi mai *'Richard Herbert of Blache-hall in Montgomery, Esq.'* oedd tad George Herbert. Llosgwyd Black Hall i'r llawr yn ddiweddarach. Credir bod bwthyn o'r enw Black Hall Cottage yn sefyll ar y safle heddiw.

* * * *

Lle bynnag y cafodd George Herbert ei eni gwyddom i sicrwydd mai plentyn tair oed ydoedd pan fu ei dad farw yn 1596. Yn fuan wedi hyn symudodd y fam a'i phlant yn ôl i'w chartref yn Eutun ac yna ymlaen i Rydychen ac yna i Lundain. Ni wyddom a gafodd y George ifanc gyfle i ddysgu'r Gymraeg ond gallwn fod yn weddol sicr ei fod wedi dod o dan ddylanwad y diwylliant Cymraeg oedd yn rhan mor naturiol o fywyd y Gororau ar y pryd. Mae'n werth cofio fod ei frawd hynaf, Edward, wedi cael ei anfon at Edward Thelwall, Plas-y-ward, Rhuthun, am naw mis i ddysgu Cymraeg pan oedd yn naw oed. Yn ôl y sôn bu'n wael trwy gydol y naw mis yno ac ni ddysgodd lawer! Mae'n werth nodi hefyd fod un o chwiorydd George Herbert, Margaret, wedi priodi John Vaughan mab ac etifedd Owen Vaughan o deulu enwog Fychaniaid Llwydiarth. Wedi i John a Margaret Vaughan farw bu eu merched yn byw gyda George Herbert a'i wraig yn Bemerton, ger Salisbury, am gyfnod.

* * * *

Wedi i'r teulu symud i Lundain dechreuodd fynychu Ysgol Westminster pan oedd yn ddeuddeg oed. Yna yn 1609 aeth i Goleg y Drindod yng Nghaergrawnt. Ar Ddydd Calan 1610 anfonodd ddwy soned at ei fam a dyma'r farddoniaeth gynharaf o'i eiddo sydd wedi goroesi. Graddiodd yn 1612, fe'i gwnaed yn Gymrawd o Goleg y Drindod yn 1614, graddiodd yn MA yn 1616, fe'i penodwyd yn Ddarllenydd mewn Rheithreg yn 1618 ac yn 1619 cafodd ei benodi i swydd yr Areithydd Cyhoeddus ym Mhrifysgol Caergrawnt. Ei waith fel Areithydd Cyhoeddus oedd cyfarch enwogion y byd gydag areithiau maith a dysgedig yn yr iaith Ladin wrth estyn croeso iddynt i Gaer-grawnt. Yr oedd y swydd hon yn swydd bwysig ac fe'i cyfrifid fel gris i'w dringo ar y ffordd i swydd uchel yn y gwasanaeth brenhinol. Daliodd y swydd hyd 1627, y flwyddyn y bu farw ei fam. Yr oedd erbyn hyn wedi troi ei ddiddordebau i gyfeiriadau eraill, yn arbennig felly wedi i farwolaeth y brenin Iago yn 1625 roi diwedd ar ei obeithion am ddyrchafiad yn y Llys.

Wrth i un drws gau fe agorodd un arall oherwydd dyma'r adeg y dechreuodd feddwl o ddifrif am fod yn offeiriad. Credir iddo dderbyn rhan o fywoliaeth ddiofal rheithoriaeth Whitford yn yr hen Sir Fflint yn rhodd gan y brenin yn 1623 ac efallai iddo ddal cyfran o reithoriaeth Llandinam hefyd. Yn Ionawr 1624 etholwyd ef yn aelod seneddol dros fwrdeistref Trefaldwyn ac yn 1625 eisteddodd yn Senedd gyntaf Siarl I.

* * * *

Yn 1626 cymerodd gam pendant tuag at yrfa eglwysig trwy gael ei ordeinio'n ddiacon. Am dair blynedd bu'n gwasanaethu ym mhlwyf Leyton Ecclesia yn esgobaeth Lincoln. Yna torrodd ei iechyd ac am tua blwyddyn bu'n gorffwyso er mwyn ceisio adennill ei iechyd. Bregus fu ei iechyd trwy gydol ei oes ac mewn gwirionedd treuliodd ei oes yn ymladd yn erbyn y gwendid hwn. Yn 1629 priododd ferch o'r enw Jane Danvers ac yna yn 1630 penodwyd ef yn Rheithor Bemerton, ger Salisbury. Fe'i hordeiniwyd ar Fedi 19eg ac o'r diwrnod hwnnw hyd ei farw yn ddeugain oed namyn mis, ym mis Mawrth 1633, y treuliodd flynyddoedd hapusaf ei oes yn barddoni, iacháu eneidiau, gweinidogaethu ac atgyweirio'r eglwysi a'r rheithordy. O'r diciau y bu farw ac yn Bemerton ar Fawrth y 3ydd y cafodd ei gladdu.

Ni chyhoeddwyd fawr ddim o'i waith yn ystod ei fywyd ond yr oedd llawer o'i farddoniaeth yn cylchredeg mewn llawysgrif. Ychydig cyn iddo farw yr oedd Herbert wedi rhoi ei lawysgrifau i'w gyfaill Nicholas Ferrar i'w diogelu. Ychydig fisoedd wedi i